**Cyfeirnod:** 888A2018-19

**Dyddiad y'i cyhoeddwyd:** Tachwedd 2018

# Archwiliad o asesiad o berfformiad 2017-18 Cyngor Dinas Casnewydd

## Tystysgrif

Rwyf yn ardystio fy mod i wedi archwilio asesiad Cyngor Dinas Casnewydd (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) y Mesur a'i fod wedi ymddwyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

Dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad yn flynyddol sy'n disgrifio ei berfformiad o ran y canlynol:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- trwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodwyd gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad a bennwyd gan y Cyngor ei hun; a
- chyflawni unrhyw safonau perfformiad a nodwyd gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad a bennwyd gan y Cyngor ei hun.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn ystod y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall a allai gael ei bennu trwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol dan adrannau 17 ac 19 y Mesur i mi gynnal archwiliad er mwyn penderfynu a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod i wedi gwneud hynny ac adrodd ynghylch a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n unol â'r gofynion statudol a eglurir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, os yw awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch pa mor gyflawn neu gywir yw'r wybodaeth. Mae'n bosibl y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ymgymryd ag ef dan adran 18 y Mesur yn ystyried y materion hynny. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad o berfformiad y Cyngor yn cynnwys adolygu cyhoeddiad y Cyngor er mwyn gweld a oedd yn cynnwys yr elfennau a bennir mewn deddfwriaeth. Euthum ati hefyd i asesu a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei asesiad.

Nid yw'r gwaith yr wyf i wedi'i gyflawni er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 y Mesur yn waith y gellir dibynnu'n gyfan gwbl arno i nodi pob gwendid neu bob cyfle i wella.



**Adrian Crompton**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Alun Davies – Ysgrifennydd y Cabinet dros Llywodraeth Leol a Gwasnaethau Cyhoeddus

Non Jenkins, Rheolwr

Gareth Jones, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad